Deyton Bell Limited

counterculture




# Adroddiad Effaith Economaidd

Adroddiad ar gyfer
Cyngor Celfyddydau Cymru
**TACHWEDD 2024**

Gŵyl Reggae Riddim, Casnewydd
Llun: Shutterdown Photography

# Rhagymadrodd

Cyngor Celfyddydau Cymru yw corff cyhoeddus swyddogol y wlad ar gyfer ariannu a datblygu'r celfyddydau. Wedi'i sefydlu gan Siarter Frenhinol ym 1994, rydym yn cefnogi ac yn datblygu'r celfyddydau yng Nghymru er budd pobl ledled Cymru, ac rydym yn cefnogi celfyddydau Cymru yn rhyngwladol.

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

## Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn bodoli i:

- Datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac arfer y celfyddydau;
- Cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd;
- Gweithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg;
- gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru, a Chynghorau Celfyddydau eraill y DU, i gyflawni'r nodau hyn.

**Mae ansawdd rhagorol y gwaith artistig a gynhyrchir gan yr artistiaid a'r sefydliadau a ariannwn yn cael ei gydnabod yn eang, ac rydym yn datblygu gwaith yn gynyddol gyda chysylltiadau mesuradwy ac uniongyrchol â buddion iechyd, lles, addysg a'r amgylchedd. I ddarllen yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, ewch i celf.cymru**

# Pam yr adroddiad hwn, a pham nawr?

Yng Nghyngor Celfyddydau Cymru, credwn yn angerddol y gallwn gyfrannu'n sylweddol at bob un o saith nod Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'n bod yn helpu i greu Cymru lewyrchus, gydnerth, iachach, mwy cyfartal, sy'n gyfrifol yn fyd-eang gyda chymunedau mwy cydlynol efo diwylliant bywiog ble mae'r Gymraeg yn ffynnu.

Mae gennym dystiolaeth gref o'n cyfraniad cymdeithasol a diwylliannol, ond nid ydym bob amser wedi bod cystal ag y gallem fod wedi bod yn dangos manteision economaidd ein gwaith i bobl Cymru. Mewn cyfnod lle mae cystadleuaeth enfawr am arian cyhoeddus, a lle, ar adeg ysgrifennu, rydym yn profi gostyngiad o 40% yn ein cyllid mewn termau real ers 2010, rydym yn gwybod ei bod yn hanfodol cyflwyno'r achos dros y celfyddydau ym mhob achos - am y llawenydd y mae'r celfyddydau yn ei roi i bobl, y lles y mae'r celfyddydau yn ei gefnogi, yr addysg y gall y celfyddydau ei darparu, a'r manteision ariannol ac economaidd y mae'r celfyddydau yn eu rhoi i bobl Cymru.

**Mae'r adroddiad newydd hwn, gan yr ymgynghorwyr economaidd profiadol Deyton Bell, yn gwerthuso ein heffaith economaidd, ac yn dangos yr effaith sylweddol y mae ein gwaith yn ei chael ar economi Cymru a swyddi Cymru. I ddarllen yr adroddiad llawn ewch i celf.cymru.**


# Canfyddiadau allweddol

Mae ymchwil Deyton Bell yn dangos:

Yn 2023/24, am bob **£1** dderbyniwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru, aeth **£2.51** yn ôl i'r economi

Mae **92%** o'r cyllid yr ydym yn ei dderbyn yn cael ei ddosbarthu ar draws Cymru, gan ddod â buddion i bob cymuned.

Roedd gan y diwydiant celfyddydau a diwylliant yng Nghymru drosiant o **£1.64b** yn 2023/24.




Dros y degawd diwethaf mae cyflogaeth yn y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru wedi cynyddu **28%** o 28,900 o weithwyr yn 2014 i'r lefel a adroddwyd ar hyn o bryd o 36,960 o swyddi.

Mae ein dull ariannu dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi helpu i sicrhau adferiad sylweddol mewn effaith economaidd, o **£1.01 y £1** yn 2021/22 (wrth i'r sector wella o'i ddifrod gan y pandemig COVID-19), i **£2.51 y £1** yn 2023/24.

*Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi darparu cyllid, cefnogaeth, ac eiriolaeth hanfodol ar gyfer datblygu'r celfyddydau ac iechyd ledled Cymru, a hebddynt ni fyddai'r sector lle y mae heddiw. Mae gan yr ymrwymiad i'r celfyddydau ac iechyd fanteision pwysig i gleifion, staff, ymwelwyr, gwirfoddolwyr, a phoblogaeth ehangach Cymru. Mae'n hanfodol bod y gwaith hwn yn parhau ac yn tyfu i gefnogi iechyd a lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.*

**TERI HOWSON-GRIFFITHS, ARWEINYDD STRATEGOL Y CELFYDDYDAU AC IECHYD, BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

# Sylfaen wybodaeth gadarn

Mae ein gwaith yn adeiladu ar gorff cynyddol o dystiolaeth fyd-eang ar gyfer effaith economaidd y celfyddydau a diwylliant a gyflawnwyd dros y degawd diwethaf.

Dangosodd ymchwil seminol gan y Ganolfan Ymchwil Economeg a Busnes (CEBR) 5 yn 2015 (diweddarwyd yn 2019) fod gan y diwydiant celfyddydau a diwylliant ledled y DU gynhyrchiant llafur 30% yn uwch na'r economi gyfan. Cyfrifwyd bod y celfyddydau a diwylliant yn 2016 wedi darparu £23b o Werth Ychwanegol Crynswth (GYC) i economi'r DU ac wedi talu £5.00 mewn trethi am bob £1.00 o arian cyhoeddus a dderbyniwyd.

Dangosodd adroddiad McKinsey yn 2023 fod 180m o lyfrau ffuglen wedi'u gwerthu yn y DU yn 2022, bod 117m o ymweliadau â sinema, 30m yn bresennol mewn digwyddiadau cerddoriaeth fyw a 30m o ymweliadau ag orielau celf. Daeth i'r casgliad bod pobl ledled y DU yn "ymgysylltu â'r celfyddydau ar raddfa enfawr". Arweiniodd hyn at 620,000 o bobl yn cael eu cyflogi yn y celfyddydau, yn ogystal â 350,000 o bobl hunangyflogedig, a chyfraniad o £49b o GYC i economi'r DU (50% yn fwy na'r sector telathrebu, er enghraifft).

Dangosodd ymchwil ddiweddar yn yr Alban fod amgueddfeydd ac orielau'r Alban wedi cyfrannu £115m mewn GYC, ac wedi cynhyrchu £2.67 mewn allbwn economaidd am bob £1.00 o grant craidd.

**Yng Nghymru, dangosodd gwaith Arad Research gyda Theatr Clwyd fod y theatr wedi cyfrannu £7.7m i economi gogledd ddwyrain Cymru yn 2017/188. Dangosodd ymchwil Creu Cymru i effeithiolrwydd y cynllun mynediad cenedlaethol Hynt, menter Cyngor Celfyddydau Cymru a reolir gan Creu Cymru mewn partneriaeth â Diverse Cymru, fod £6.05 o werth cymdeithasol yn cael ei greu am bob £1 a wariwyd ar Hynt.**

*Mae'r celfyddydau yn sbardun allweddol i ddatblygiad economaidd. Maent yn agor cyfleoedd, yn adeiladu cydlyniant cymdeithasol, ac yn codi dyheadau. Mae'r celfyddydau yn lefelwr, yn dod â phobl o bob rhan o gymdeithas ynghyd ac yn darparu fforwm ar gyfer syniadau, sgwrs a thrafodaeth.*

**STEFFAN JONES-HUGHES, CYFARWYDDWR, ORIEL DAVIES GALLERY**

*Heb y called a ddarperir gan Gyngor Celfyddydau Cymru i sicrhau bod y celfyddydau ar gael i bawb, ni allwn ffynnu fel cenedl.*

**BETSAN MOSES, PRIF SWYDDOG GWEITHREDOL,**
**YR EISTEDDFOD GENEDLAETHOL**

# Sut mae ymagwedd Cyngor Celfyddydau Cymru yn sicrhau enillion economaidd

*Cyn Buddsoddiad Cyfalaf gan Gyngor Celfyddydau Cymru, roedd Ballet Cymru yn gyfyngedig o ran yr hyn y gallem ei gynnig o ran ymgysylltu a gwaith proffesiynol. Heb ein canolfan ein hunain, roedd hyn yn gyfystyr â thua 10 o ddawnswyr llawrydd, nifer fach o staff, a gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd mewn lleoliadau llogi ledled Casnewydd. Nawr, gyda buddsoddiad cyfalaf, rydym yn ymgysylltu â dros 3,000 o bobl bob blwyddyn yn ein canolfan gan gynnwys dawnswyr proffesiynol, gweithwyr creadigol llawrydd, staff, a phawb sy'n derbyn hyfforddiant trwy ein rhaglenni cyfranogiad.*

**BALLET CYMRU**

Yn 2022/23 fe wnaethom fabwysiadu strategaeth newydd ar gyfer buddsoddi mewn artistiaid a'r celfyddydau, gan dynnu'n helaeth ar y gwersi a ddysgwyd gennym yn y pandemig. Amlygodd y rhain bwysigrwydd hanfodol cynllunio hirdymor ac addasu.

Cyhoeddwyd y grantiau yn 2023/24 a'u rhoi ar waith yn 2024/25. Mae ein dull newydd yn canolbwyntio ar sicrhau bod y rhai rydym yn eu hariannu yn cyflawni'r amcanion a nodir yn ein Siarter Frenhinol, ac yn cynnig mwy o allu i dderbynwyr newid manylion yr hyn y maent yn ei gynnig mewn ymateb i amgylchiadau sy'n newid.

Mae'r meddylfryd tymor-hir hwn yn fwyaf amlwg yn y nifer cynyddol o sefydliadau sy'n derbyn cyllid aml-flwyddyn, sydd wedi codi o 67 (yn 2023/24) i 81 (yn 2024/25) ac yn cynnwys 23 o sefydliadau sy'n derbyn cyllid aml-flwyddyn ar gyfer y tro cyntaf, gan ein galluogi ni fel sefydliad i ymestyn ein cyrhaeddiad a chefnogi mentrau creadigol mwy amrywiol.

Mae cyllid aml-flwyddyn yn rhoi mwy o allu i sefydliadau celfyddydol arbrofi gyda phrosiectau newydd a mathau newydd o gynhyrchu incwm, gan arallgyfeirio eu cyllid, gwella eu cynaliadwyedd, a'u helpu i dyfu a chyfrannu mwy at eu heconomïau lleol a Chymru. Mae'r cyllid rydym yn ei ddosbarthu wedi cynyddu eleni ar draws y rhan fwyaf o'r ffurfiau celf a'r meysydd creadigol, gan gynnwys syrcas a chelfyddydau awyr agored, celfyddydau gweledol a chymhwysol, celfyddydau digidol, dawns, lleoliadau, a chelfyddydau cymysg.

**Mae sefydliadau ac artistiaid sy'n derbyn grantiau Cyngor Celfyddydau Cymru wedi'u gwasgaru ar draws y wlad gyfan, gan sicrhau bod pob economi leol yn elwa o'n gwaith.**

# Effaith yn y Dyfodol

Mae dadansoddiad Deyton Bell yn dangos y gallai cynnydd cymedrol o 10% mewn cyllid o lefelau 2023/24 arwain at dwf sylweddol mewn enillion ar fuddsoddiad - o £2.51 heddiw i £3.29 erbyn 2035.

*Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng ngogledd Cymru wedi datblygu nifer o fentrau celfyddydol ac iechyd a ariennir ar sail prosiect gan Gyngor Celfyddydau Cymru. Mae hyn yn galluogi'r tîm i brofi a threialu prosiectau celf ac iechyd, y gallwn wedyn drosoli a dod o hyd i gyllid o fannau eraill, i'w cadw i fynd. Lle bo modd, ein nod yw gwreiddio'r celfyddydau ac iechyd o fewn y bwrdd iechyd.*

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR**

Yn hollbwysig, mae buddsoddiad cynyddol yn arwain at adenillion uwch am bob punt a fuddsoddir. Mae ein dadansoddiad yn dangos y gallai hyn hefyd greu 1,375 o swyddi newydd ychwanegol drwy dwf y celfyddydau ar draws ein holl bartneriaid – o ddigwyddiadau mawr i gymorth cymunedol, lle mae gweithgarwch ar lawr gwlad yn parhau i greu swyddi newydd.

Mae ein hastudiaeth o'r ffordd y mae buddion economaidd a swyddi'n cael eu cynhyrchu gan wahanol fathau o sefydliadau celfyddydol yn dangos bod yr enillion mwyaf mewn effaith economaidd (GVA) a chyflogaeth yn debygol o gael eu gwneud trwy fuddsoddiad cynyddol mewn sefydliadau canolig eu maint, gyda grantiau yn y £100,000 - £250,000, felly yn dibynnu ar ble y caiff unrhyw arian ychwanegol ei wario, gallai'r elw economaidd fod hyd yn oed yn fwy.



Dawns i Bawb a preswylwyr o Gartref Preswyl Brynseiont Newydd
Llun: Brynseiont Newydd

*Nid ariannol yn unig yw effaith Cyngor Celfyddydau Cymru. Mae eu cefnogaeth a'u harweiniad yn werthfawr iawn i ni fel sefydliad dan arweiniad du wrth fynd i'r afael â cheisiadau ac ysgrifennu cynigion - maen nhw'n gweithio'n galed iawn i ddod i'n hadnabod ni a'n gwaith. Yn sicr, ni fyddwn wedi bod mor wybodus am sut i geisio am gyllid ar gyfer ein gwaith heb eu cefnogaeth. Mae Cyngor y Celfyddydau wir wedi ein helpu i ddatblygu'r busnes ac nid yn unig wedi ein hariannu, ond hefyd wedi dangos i ni sut i dyfu busnes celfyddydau creadigol.*

**LOREN HENRY, PRIF WEITHREDWR, URBAN CIRCLE**

# Astudiaeth Achos

## Dysgu creadigol trwy'r celfyddydau




Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar, Sunshines Pre-School, Ysgol Gynradd Llan-ffwyst Fawr

Mae ein rhaglen Dysgu Creadigol yn cefnogi ysgolion, dysgwyr, ac athrawon ac mae wedi darparu dros 140,000 o gyfleoedd dysgu ers 2015. Mae'r rhaglen hefyd wedi darparu dros 4,600 o gyfleoedd i athrawon gefnogi eu dysgu proffesiynol.

**Gall dwy brif elfen y rhaglen sicrhau effeithiau economaidd sylweddol:**

Mae Rhwydweithiau Celfyddydau ac Addysg Rhanbarthol yn ei gwneud hi'n bosibl i ysgolion a sefydliadau celfyddydol rannu arfer gorau a dod o hyd i bartneriaethau. Mae hyfforddiant yn gwella sgiliau athrawon ac artistiaid, ac mae dysgwyr mewn ysgolion ar draws Cymru yn ennill sgiliau gwerthfawr mewn rhai o'r meysydd a fydd fwyaf hanfodol ar gyfer gyrfaoedd llwyddiannus. Mae'r rhaglen wedi cyflogi cannoedd o artistiaid, gan roi sgiliau newydd pwysig iddynt a gwneud gwahaniaeth sylweddol i hyfywedd eu gwaith, yn enwedig ar gyfer artistiaid ar ddechrau eu gyrfa.

Mae grantiau "Ewch i Weld" Cronfa'r Celfyddydau yn galluogi plant a phobl ifanc i brofi digwyddiadau celfyddydol o ansawdd uchel mewn lleoliadau ledled Cymru. Mae plant ysgol yn ymweld â theatrau, amgueddfeydd, orielau a lleoliadau diwylliannol eraill ac mae'r rhaglen wedi'i gwerthuso fel un "hygyrch a syml i'w gweinyddu a'i chyflwyno." 11 Mae hyn yn helpu hyfywedd lleoliadau ac yn cefnogi'r economi leol ehangach ledled Cymru – fel cwmnïau bysiau a choetsis lleol sy'n darparu trafnidiaeth.

*Pan wnaethom ddarparu arian cyfalaf i* ***Galeri Caernarfon****, bu'n gymorth i greu sinema newydd a ragamcanwyd i greu 3.5 o swyddi llawn amser – nawr, mae'n cefnogi 8.5 o swyddi.*

*Byddai* ***Theatr Borough*** *y Fenni wedi cau heb fuddsoddiad gan Gyngor Celfyddydau Cymru - ond yn dilyn gwaith adnewyddu gwerth £1m, gwerthodd 9,800 o docynnau i sioeau yn ystod chwe mis cyntaf 2023.*

*Yn Wrecsam, mae* ***Tŷ Pawb*** *wedi defnyddio'r cyllid a gawsant gan Gyngor Celfyddydau Cymru i groesawu 1.2m o ymwelwyr (2018-2022) ac wedi cynhyrchu £350,000 mewn grantiau gan gyrff eraill ac incwm.*

*Mae* ***Oriel Davies****, yn y Drenewydd yn mynd ati i geisio defnyddio cyflenwyr lleol a'i nod yw gwneud yn siŵr bod eu gwariant o fudd i'r economi leol. Mae sawl cyflenwr lleol yn dweud bod hyn yn bwysig i'w busnes a'i fod yn hanfodol i greu swyddi.*

I ddarllen yr adroddiad yn ei gyfanrwydd, ewch i celf.cymru

